Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

2016-2020

Cyhoeddwyd Ebrill 2016

# Mynegai


| | |
|---|---|
| Rhagair | 1 |
| Cyflwyniad | 2-3 |
| Yr Amcanion Cydraddoldeb | 4 |
| Proffil o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | 5 |
| Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth Tân ac Achub | 6 |
| Fframwaith Deddfwriaethol | 7 |
| Y Gymraeg | 8 |
| Datblygu'r Amcanion drwy Ymgysylltu | 8 |
| Gwybodaeth am Recriwtio a Chyflogi | 9 |
| Hyfforddi | 9 |
| Asesu Effaith | 9 |
| Caffael | 10 |
| Cyhoeddi, Monitro ac Adolygu | 10 |
| Hyrwyddo Dealltwriaeth o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol | 10 |

| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **Prif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**<br>**Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |

Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yw ail Gynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod. Mae'r cynllun yn esbonio sut y bydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol i hyrwyddo cydraddoldeb i bob grŵp yng Ngogledd Cymru. Mae'r Cynllun yn amlinellu ein hymrwymiad i sicrhau cydraddoldeb ymhob agwedd ar ein gwasanaethau ac yn ein harferion cyflogaeth.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein polisïau a'n harferion cyflogaeth yn deg, yn hygyrch ac yn briodol i'r bobl amrywiol yr ydym yn eu gwasanaethau a'r gweithlu yr ydym yn eu cyflogi. Mae'r ddogfen hon yn dwyn ynghyd ac yn cryfhau'r gwaith a wnaethom ym maes cydraddoldeb dros y pedair blynedd ddiwethaf. Rydym wedi gwneud cynnydd pwysig tuag at wella'r modd rydym yn ymgorffori cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y prosesau o lunio polisïau yn yr Awdurdod Tân ac Achub.

Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn cefnogi ac yn arwain yr Awdurdod i ddod yn sefydliad sy'n arwain drwy esiampl er mwyn sicrhau tegwch, cynhwysiant a pharch tuag at bawb.

- Byddwn yn parhau i sicrhau bod gan bawb gyfle i ddatblygu mewn amgylchedd sy'n gadarnhaol, yn ddiogel ac yn gefnogol.

- Byddwn yn darparu cyfle cyfartal, ac ni fyddwn yn goddef gwahaniaethu ar sail: rhywedd, hunaniaeth o ran rhywedd, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, hil, lliw, cenedligrwydd, crefydd, oedran, anabledd, patrwm gweithio, cyfrifoldebau gofalu, gweithgareddau undeb llafur neu unrhyw sail arall nad oes modd ei gyfiawnhau.

- Byddwn yn ymdrechu i fodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 ac i gyflawni Dyletswyddau Cydraddoldeb Cyffredinol a Phenodol y Sector Cyhoeddus, a hynny ymhob agwedd ar ein gwaith.

Fel cyflogwr, rydym wedi ymrwymo i gydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth o fewn ein gweithlu, rydym wedi ymrwymo i alluogi'r staff i gael cydbwysedd rhwng ymrwymiadau gwaith a'u bywydau y tu allan i'r gwaith. Ein nod yw sicrhau bod yr ymrwymiadau hyn, sy'n cael eu cryfhau gan ein Gwerthoedd Craidd, yn dod yn rhan annatod o'n harferion gwaith o ddydd i ddydd gyda'n holl gwsmeriaid, cydweithwyr a phartneriaid.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo i gyfle cyfartal i bawb ac i ddarparu gwasanaeth proffesiynol sy'n cofleidio amrywiaeth ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal.

Fel Cadeirydd a Phrif Swyddog, rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn ystyried barn ein staff, y cyhoedd, rhanddeiliaid a'n partneriaid, a'n bod yn hybu cynnydd mewn perthynas â'r amcanion a'r camau gweithredu y cytunir arnynt yn y Cynllun.

| | |
|---|---|
| Simon A Smith | Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies |
| Prif Swyddog Tân | Cadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub |

# Cyflwyniad

### Beth yw'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol?

Mae'r ddogfen hon yn ffordd i'r Awdurdodau Tân ac Achub gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac yn ffordd o fesur y dyhead i sicrhau cydraddoldeb ymhob agwedd ar ein gwasanaethau i bawb sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Gogledd Cymru.

### Sut cafodd y Cynllun ei Ddatblygu?

Caiff y cynllun ei ddatblygu gyda Phenaethiaid Adrannau o bob rhan o'r Gwasanaeth. Gofynnwyd iddynt ganfod Amcanion Cydraddoldeb o fewn eu meysydd cyfrifoldeb unigol gyda chymorth a chyngor gan yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn rhan o Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru. Fe wnaeth y rhwydwaith gynnal digwyddiad ymgynghori yn Hydref 2015, a gwahoddwyd nifer fawr o grwpiau lleol ac unigolion i ddod yn rhan a dweud eu dweud.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar yr amcanion ym mis Tachwedd a Rhagfyr gan ddefnyddio gwefan y Gwasanaeth a Hwb Wrecsam. Gwahoddwyd adborth drwy e-bost neu'r post – darparwyd yr amcanion yn electronig fel bod pobl yn cael cyfle i lenwi arolwg ar-lein.

Mae pob un o'r gweithgareddau hyn wedi cyfrannu at ein hamcanion cydraddoldeb. Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu newid yr amcanion unrhyw bryd felly mae'r Gwasanaeth yn awyddus i gadw lefel barhaus o ymgysylltu er mwyn sicrhau bod ein hamcanion yn parhau'n gyfredol.

### Pam fod y cynllun hwn yn bodoli?

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyfuno gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth cydraddoldeb gan gytgordio a chryfhau deddfwriaeth cydraddoldeb dan un Ddeddf newydd. Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff y sector cyhoeddus dalu sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol wrth gyflawni eu swyddogaethau:

- **dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf neu odani;**
- **hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu;**
- **meithrin perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhestru nifer o nodweddion na ellir eu defnyddio i drin rhai pobl yn waeth nag eraill.

Pan fyddwn yn sôn am nodweddion gwarchodedig, ystyr hynny yw:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu Gred/Dim Cred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd Rhywiol

**Beth fydd yn digwydd o ganlyniad i'r cynllun?**

Mae'r Awdurdod Tân ac Achub wedi datblygu cyfres o Amcanion Cydraddoldeb trosfwaol; bydd gan bob amcan ei gamau gweithredu penodol ei hun.

**Pwy fydd yn gyfrifol am gyflawni'r cynllun hwn?**

Holl Aelodau'r Awdurdod, staff ac unrhyw un sy'n gweithio i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru neu ar ei ran. Mesurir y camau gweithredu a'r canlyniadau a fwriedir iddynt, ac adroddir yn eu cylch bob blwyddyn.

**Sut caiff y Cynllun ei fonitro?**

Bydd hyn yn parhau i gael ei wneud bob blwyddyn i'r Awdurdod Tân drwy'r Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar y fewnrwyd a Gwefan yr Awdurdod Tân.

Bydd yr adroddiad yn cynnwys cynnydd mewn perthynas â'r Amcanion Cydraddoldeb gan gynnwys Data Cyflogaeth a Chyflwyno Gwasanaethau.

**Lle i gael rhagor o wybodaeth**

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r dogfennau ategol, ewch i wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru neu cysylltwch â:

Sue Jones

Ymgynghorydd Cydraddoldeb
Pencadlys y Gwasanaeth Tân
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

Sue.jones@gwastan-gogcymru.org.uk

# Amcanion Cydraddoldeb 2016-2020

## Bywyd ac Iechyd

- **Amcan Cydraddoldeb 1**

  Gostwng nifer y Tanau mewn Anheddau a'r anafusion cysylltiedig drwy strategaeth ataliol gynhwysfawr wedi'i hanelu'n arbennig at bobl y gellir dangos eu bod mewn mwy o berygl oherwydd eu nodweddion a/neu eu hamgylchiadau penodol.

## Cyflogaeth

- **Amcan Cydraddoldeb 2**

  Drwy ein harferion cyflogaeth, ein rhaglenni a'n cynlluniau ein hunain, cynyddu'r siawns o swydd i bobl a fyddai fel arall yn ei chael yn anodd cael mynediad cyfartal i fyd gwaith.

## Addysg

- **Amcan Cydraddoldeb 3**

  Drwy raglen gynhwysfawr o addysg a chyngor wedi'u teilwra, yn cael eu darparu'n unigol ac ar y cyd, rhoi grym i bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Gogledd Cymru i barhau i leihau eu lefel eu hunain o risg rhag tân a pheryglon eraill drwy gydol y camau gwahanol yn eu bywydau.

## Diogelwch Personol

- **Amcan Cydraddoldeb 4**

  Lleihau'r risg o farwolaeth neu anaf oherwydd tanau yng Ngogledd Cymru drwy ddarparu gwasanaethau effeithiol i atal ac amddiffyn ac ymateb i danau ac achub.

## Cynrychiolaeth a Llais

- **Amcan Cydraddoldeb 5**

  Drwy fod yn agored ac atebol am yr hyn a wnawn a beth yw'n cynlluniau, annog mwy o bobl i ymwneud â'r broses o benderfynu sut caiff gwasanaethau tân ac achub eu darparu yng Ngogledd Cymru, a cheisio cynyddu'r amrywiaeth o leisiau cynrychioliadol sy'n cyfrannu at y broses honno.

## Mynediad at Wasanaethau, Gwybodaeth ac Adeiladau

- **Amcan Cydraddoldeb 6**

  Gwella mynediad at wybodaeth a chyfathrebiadau gyda'r Gwasanaeth, a gwella mynediad corfforol at adeiladau'r gwasanaeth tân ac achub y mae'r cyhoedd yn eu defnyddio neu'n ymweld â nhw.

## Proffil o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**
Rôl Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yw cyflawni holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau Awdurdod Tân yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau priodol, yn arbennig Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. Mae'r Awdurdod yn cynnwys 28 o gynghorwyr o'r chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru.

**Panel Gweithredol**
Mae gan y Panel Gweithredol rôl amrywiol yn ymdrin â phynciau megis penodi uwch swyddogion, polisi a materion cyfansoddiadol. Mae'n ystyried ymatebion i bapurau ymgynghori a datblygiadau polisïau eraill, ac mae'n gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ynghylch ei bolisïau allweddol, gan gynnwys y Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella.

**Pwyllgor Safonau**
Sefydlwyd y Pwyllgor Safonau yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2000. Mae ei ddyletswyddau'n cynnwys ystyried cwynion yn erbyn Aelodau'r Awdurdod a chynghori'r Awdurdod ar faterion yn ymwneud â safonau.

**Pwyllgor Archwilio**
Mae gan y Pwyllgor bedair prif rôl, sef llywodraethu, archwilio a chraffu ar lywodraethiant, rheolaeth ariannol a rheoli adnoddau, rheoli risg a sicrwydd, ac archwilio a chraffu ar berfformiad.

Aelodau'r Pwyllgor yw'r holl aelodau nad ydynt yn aelodau o'r panel gweithredol.

**Meysydd Gwasanaeth Gweithredol**
Rydym yn darparu gwasanaethau atal tanau ac amddiffyn rhag tanau ledled Gogledd Cymru i ryw 670,000 o bobl mewn ardal sy'n 2,400 milltir sgwâr. Ceir swyddfeydd Diogelwch Cymunedol yn yr ardaloedd canlynol:

**Gwynedd ac Ynys Môn**
Ffordd Llanberis
Caernarfon
LL55 2DF
Ffôn: 01286 662 999

**Swyddfa Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych**
Gorsaf Dân Bae Colwyn
Ffordd Abergele
Bae Colwyn
Conwy
LL29 8AA
Ffôn: 01745 352777

**Swyddfa Diogelwch Cymunedol Wrecsam a Sir y Fflint**
Ffordd Bradley
Wrecsam
LL13 7ST
Ffôn: 01978 367870

## Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth Tân ac Achub

Y Prif Swyddog Tân yw Pennaeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, mae ganddo reolaeth gorfforaethol a chyfrifoldeb gweithredol am y Gwasanaeth, ac mae'n darparu cyngor proffesiynol i'r Awdurdod Tân ac Achub. Mae gwerthoedd craidd y Gwasanaeth yn crynhoi'r egwyddorion a ddilynwn a'r gwerthoedd personol y caiff y staff eu hannog i'w mabwysiadu a'u harddangos.

Dyma'r gwerthoedd craidd:

**Gwasanaeth i'r gymuned**

Rhoi gwerth ar wasanaeth i'r gymuned drwy:

- Weithio gyda phob grŵp i leihau risg
- Trin pawb yn deg a pharchus
- Bod yn atebol i'r rhai yr ydym yn eu gwasanaethu
- Ymdrechu i gael rhagoriaeth ym mhopeth a wnawn

**Pobl**

Rhoi gwerth ar ein holl weithwyr drwy arfer a hybu:

- Tegwch a pharch
- Cydnabod rhinwedd
- Gonestrwydd, didwylledd a chydymddiriedaeth
- Datblygiad personol
- Cydweithio a bod yn gynhwysol

**Amrywiaeth**

Rhoi gwerth ar amrywiaeth yn y Gwasanaeth a'r gymuned drwy:

- Drin pawb yn deg a pharchus
- Darparu atebion gwahanol ar gyfer gwahanol anghenion a disgwyliadau
- Hyrwyddo cyfle cyfartal wrth gyflogi a dyrchafu o fewn y Gwasanaeth
- Herio rhagfarn a chamwahaniaethu

**Gwella**

Rhoi gwerth ar wella ar bob lefel o'r Gwasanaeth drwy dderbyn cyfrifoldeb am ein perfformiad drwy:

- Gael meddwl agored
- Ystyried pob beirniadaeth yn feddylgar
- Dysgu o'n profiadau
- Ymgynghori ag eraill

## Fframwaith Deddfwriaethol

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

**Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol y Sector Cyhoeddus (Ebrill 2011)**

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyfuno gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth cydraddoldeb, gan gytgordio a chryfhau'r ddeddfwriaeth cydraddoldeb dan un Ddeddf newydd. Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb i'r sector cyhoeddus, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff y sector cyhoeddus dalu sylw dyledus i'r canlynol wrth gyflawni eu swyddogaethau:

- **dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf neu odani;**

- **hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu;**

- **meithrin perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.**

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhestru nifer o nodweddion na ddylid eu defnyddio fel rheswm dros drin rhai pobl yn waeth nag eraill. Dyma'r 'nodweddion gwarchodedig'.

**Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011**

Hefyd, mae yna hefyd ddyletswyddau cydraddoldeb statudol penodol cysylltiedig ar gyfer Cymru (Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011) sy'n galluogi awdurdod cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol. Mae'r rheoliadau penodol yn cynnwys:

- cyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb;
- cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol;
- y darpariaethau ymgysylltu a chynnwys ar gyfer grwpiau nodweddion gwarchodedig;
- sicrhau bod deunyddiau cyhoeddedig ar gael yn rhwydd;
- asesu effaith polisïau ac arferion perthnasol;
- hyfforddiant a chasglu gwybodaeth am gyflogaeth;
- hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf Cydraddoldeb ymysg ei weithwyr;
- mynd i'r afael â gwahaniaethau annheg rhwng cyflogau;
- adolygu'r cynnydd a wnaed ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r amcanion cydraddoldeb cysylltiedig;
- darpariaethau ynghylch arferion caffael.

Yn fras, diben y dyletswyddau penodol yng Nghymru yw cynorthwyo cyrff rhestredig i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol a chyfrannu at dryloywder.

## Y Gymraeg

Mae Deddf yr Iaith Gymraeg (1993) yn gosod dyletswydd ar y sector cyhoeddus i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Yn ôl y Ddeddf, mae'n ofynnol i sefydliadau cyhoeddus baratoi cynllun iaith i esbonio pa wasanaethau y byddant yn eu darparu yn Gymraeg.

Yn Chwefror 2011, cafodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chael cydsyniad brenhinol.

Mae'n rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru fel na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac arweiniodd at sefydlu rôl Comisiynydd y Gymraeg sy'n cael ei chefnogi gan Banel Cynghori.

Mae sefydliadau cyhoeddus fel Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn un o'r garfan gyntaf y mae'n ofynnol iddynt gyflwyno'r safonau.

## Datblygu Amcanion Cydraddoldeb ac Ymgysylltu

Mae Penaethiaid Adrannau o bob rhan o'r Gwasanaeth wedi canfod amcanion cydraddoldeb o fewn eu meysydd gwasanaeth unigol gyda chymorth a chyngor gan yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb.

Wrth ddatblygu ein hamcanion rydym wedi defnyddio nifer o ffynonellau:

- Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb
- Amcanion y Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella
- Cynlluniau busnes gan bob Pennaeth Adran
- Strategaethau a Chynlluniau sy'n bodoli eisoes
- Canlyniad gweithgareddau ymgysylltu

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn rhan o Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru. Fe wnaeth y rhwydwaith gynnal digwyddiad ymgynghori yn Hydref 2015, gwahoddwyd nifer fawr o grwpiau lleol ac unigolion i chwarae eu rhan a dweud eu dweud. Cafodd yr adborth ei ddefnyddio i ddatblygu amcanion cydraddoldeb ar y cyd.

Ymgynghorwyd ynghylch Amcanion Cydraddoldeb y Gwasanaeth ar wefan y Gwasanaeth a Hwb Wrecsam. Gwahoddwyd adborth ar e-bost neu drwy'r post – darparwyd yr amcanion yn electronig er mwyn i bobl gael cyfle i lenwi arolwg ar-lein.

Mae'r gweithgareddau hyn wedi cyfrannu at ein hamcanion cydraddoldeb. Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu newid yr amcanion unrhyw bryd, felly mae'r Gwasanaeth yn awyddus i gadw lefel barhaus o ymgysylltu er mwyn sicrhau bod ein hamcanion yn parhau'n gyfredol.

Byddwn yn parhau i edrych ar y dulliau mwyaf effeithiol o ymgysylltu drwy'r cysylltiadau sy'n bodoli eisoes â grwpiau cymunedol a sefydliadau. Byddwn hefyd yn ymdrechu i sefydlu perthynas â grwpiau newydd a chymunedau lleol gan sicrhau ein bod yn diwallu anghenion a disgwyliadau pawb dan sylw.

## Gwybodaeth am Recriwtio a Chyflogi

Dan ein dyletswyddau deddfwriaethol, mae'n ofynnol inni gasglu a chyhoeddi amrywiaeth o wybodaeth am recriwtio a chyflogi, a hynny'n flynyddol. Mae hyn yn cynnwys data am yr holl nodweddion gwarchodedig. Pwrpas monitro cydraddoldeb yw ein helpu i ganfod risgiau o ran cydraddoldeb ac atal anghydraddoldeb. Mae'r wybodaeth hon yn gymorth i'r Gwasanaeth ddeall effaith ein penderfyniadau ar wahanol bobl. Caiff yr wybodaeth ei chyhoeddi yn yr Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i'r Awdurdod Tân.

## Hyfforddi

Caiff rhagor o wybodaeth fonitro ei chyhoeddi ynghylch ein gwaith hyfforddi – mae'r wybodaeth yn ofynnol am yr holl staff, caiff ei threfnu yn ôl y nodweddion gwarchodedig, ac adroddir yn ei chylch yn flynyddol.

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru wneud trefniadau priodol i:

- hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol ymysg ei weithwyr
- defnyddio unrhyw brosesau arfarnu perfformiad i ganfod a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi gweithwyr mewn perthynas â'r dyletswyddau.

## Asesu Effaith

Pwrpas asesu effaith ar gydraddoldeb yw canfod yr effaith y gallai polisi, gweithdrefn, arfer, gwasanaeth neu swyddogaeth ei chael ar staff a defnyddwyr gwasanaeth o ran cydraddoldeb. Mae'n fodd o sicrhau ein bod yn canfod ac yn dileu unrhyw broblemau neu weithredoedd a allai wahaniaethu'n erbyn unigolion neu roi unigolion dan anfantais, yn enwedig rhai â nodweddion gwarchodedig. Mae hefyd yn gymorth inni graffu ar ein polisïau a'n gweithdrefnau ac felly i wella ansawdd ein gwasanaethau.

Rhai o ofynion penodol y dyletswyddau deddfwriaethol yw bod rhaid i'r Gwasanaeth sicrhau'r canlynol:

- Nid yw arferion, gweithdrefn neu bolisi yn camwahaniaethu'n anghyfreithlon;
- Mae'n canfod unrhyw effaith niweidiol ar grwpiau gwarchodedig;
- Mae'n ystyried sut y gallai'r arferion, gweithdrefn neu bolisi fod yn well am hybu cyfle cyfartal;
- Mae'n ystyried a fydd yr arferion, gweithdrefn neu bolisi'n effeithio ar gysylltiadau rhwng gwahanol grwpiau.

Byddwn yn parhau i gyhoeddi asesiadau effaith ar gydraddoldeb sydd wedi'u cwblhau ac sy'n berthnasol, a hynny ar wefan y Gwasanaeth, a byddwn hefyd yn monitro'n rheolaidd yr holl asesiadau effaith ar gydraddoldeb sydd wedi'u cwblhau. Bydd asesiadau effeithiol o'r effaith ar gydraddoldeb yn gwella ein gwaith, gan sicrhau effaith gadarnhaol ar bob rhanddeiliad.

## Caffael

Mae'r Gwasanaeth yn talu sylw priodol i ddileu camwahaniaethu, hybu cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda wrth wario arian cyhoeddus. Mae hyn yn berthnasol wrth gaffael popeth ni waeth faint yw gwerth y contract. Mae'n bwysig i ni fod y nwyddau a'r gwasanaethau a brynwn yn addas i'r pwrpas. Mae'r un mor bwysig i ni fod cyflenwyr y nwyddau a'r gwasanaethau hynny'n cyrraedd ein safonau uchel ar gyfer cydraddoldeb.

## Cyhoeddi, Monitro ac Adolygu

Caiff y cynllun hwn ei gyhoeddi'n llawn ar ein gwefan, a bydd ar gael mewn amrywiaeth o ffurfiau os gofynnwch. Byddwn hefyd yn cyhoeddi Cynllun Gweithredu, Crynodeb Gweithredol o'r Cynllun a Fersiwn Hawdd ei Ddeall. Mae rhwymedigaeth arnom i adrodd bob blwyddyn i'r Awdurdod Tân am gynnydd ein hamcanion cydraddoldeb. Gellir canfod camau newydd yn ystod y cyfnod adrodd ar sail newidiadau mewn deddfwriaeth neu ofynion y Gwasanaeth.

Caiff ein hadroddiadau eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

Mae gennym drefniadau fod rheolwyr y gwasanaeth yn cael diweddariad rheolaidd am eu cynlluniau ar gyfer eu Hamcanion Cydraddoldeb, a bydd hyn yn rhan o'r broses flynyddol i fonitro ac adolygu.

Bydd ein hadroddiadau blynyddol i'r Awdurdod Tân hefyd yn cynnwys gwybodaeth monitro cyflogaeth a hyfforddiant, fel sy'n ofynnol dan y dyletswyddau deddfwriaethol.

## Hyrwyddo Dealltwriaeth o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Bydd yr Awdurdod yn adeiladu ar yr arferion da sydd eisoes yn eu lle i hybu rhagor o ddealltwriaeth o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth, bydd camau pellach yn cynnwys y canlynol:

- Briffiadau yn Y Fflam a'r briff wythnosol ar y cynnydd wrth gyflawni'r amcanion a nodwyd yn y cynllun;
- Sicrhau bod pob rheolwr wedi cael ei hyfforddi ar y blaenoriaethau cydraddoldeb, a'r ffordd y caiff y cynllun ei weithredu, ynghyd â'i ddyletswyddau fel unigolyn;
- Sicrhau bod materion cydraddoldeb wedi dod yn rhan annatod o broses gynefino ac arfarnu staff, a bod hyfforddiant parhaus yn cael ei ddarparu fel bod staff yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion cydraddoldeb;
- Hybu dealltwriaeth o'r cynllun ymysg ein partneriaid allanol drwy ein gwaith cydweithredol mewn cymunedau.

Gall gweithwyr cyflogedig a'r cyhoedd gael gafael ar yr wybodaeth ar [www.gwastan-gogcymru.org.uk](http://www.gwastan-gogcymru.org.uk)
***Gellir gofyn am gael yr wybodaeth hon mewn ffurfiau eraill.***